

Adroddiad ar waith pellach ar effaith COVID-19 ar y celfyddydau

Rhagfyr 2020

Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o sylwadau'r rhanddeiliaid o'r gweithdy a gynhaliwyd ar 15 Hydref a chasgliadau ac argymhellion drafft i Lywodraeth Cymru i'w hystyried gan y Pwyllgor. Cynhaliwyd sesiwn arall rhwng y Cadeirydd a gweithwyr llawrydd ar 20 Tachwedd ac mae themâu allweddol y trafodaethau hyn wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn.
2. Ers dechrau'r pandemig COVID-19, mae gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi canolbwyntio ar effaith y pandemig ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adroddiad ar [effaith argyfwng COVID-19 ar y sector celfyddydau](#).
3. Ar 15 Hydref 2020 cynhaliodd y Pwyllgor weithdai rhithwir gyda rhanddeiliaid o sector y celfyddydau. Cynhaliwyd cyfarfod pellach rhwng y Cadeirydd a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y celfyddydau ar 20 Tachwedd. Roedd amrywiaeth o unigolion a sefydliadau wedi eu cynrychioli, gan gynnwys cwmnïau theatr a chynhyrchu, lleoliadau celfyddydol a diwylliannol, cyrff cynrychiadol, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, gweithwyr llawrydd, ac academyddion. Mae rhestr lawn o'r cyfranogwyr ar gael ein gwefan.
4. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi rhai o themâu allweddol y trafodaethau ac mae'n ddilyniant i [waith blaenorol y Cynulliad ar effaith yr achosion o COVID ar y celfyddydau, y gellir dod o hyd i'w fanylion ar ein gwefan](#).



1. Y prif themâu

Effaith gyffredinol pandemig COVID-19 ar y celfyddydau

- 5.** Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ac eang ar y sector, nid yn unig o safbwynt economaidd, ond hefyd o safbwynt llesiant.
- 6.** Roedd llawer wedi gobeithio y byddai'r sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, ond mae'r sector yn rhagweld chwe mis llwm arall o'i flaen. Y brif her fydd cadw cwmnïau yn gyfan.
- 7.** Mae'r sector wedi ymateb gyda gweithredu rhyfeddol ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith gan Gynghrair Ddiwylliannol Cymru, y Tasglu Llawrydd a What Next? Cymru.

Cyfranogiad a darpariaeth digidol

- 8.** Mae cyfranogiad yn y celfyddydau wedi cael ei daro'n galed gan y pandemig ac, mewn sawl achos, mae'r gweithgaredd wedi dod i ben yn llwyr. Disgrifiwyd yr effaith ar gyfranogiad yn y celfyddydau ieuentid yn benodol fel un "ddinistriol". Nodwyd y bydd hyn yn cael effaith ar ddatblygiad sgiliau meddal y byddai'r bobl ifanc hyn wedi'u dysgu fel arall ac o bosibl yn arwain at golli talent.

Cyfranogiad digidol

- 9.** Mae'r pandemig wedi golygu trosglwyddo i ryngweithio digidol. Er bod llawer yn y sector wedi ceisio arallgyfeirio er mwyn gweithio'n ddigidol, nodwyd bod hwn yn gyfaddawd ac yn ymgais i wneud y gorau o sefyllfa wael. Teimlwyd, er bod pobl yn gallu cyrchu'r celfyddydau yn ddigidol i raddau, nad oedd y profiad a gawsant yr un peth. Ymhellach, codwyd pryderon ynghylch allgáu digidol a'r ffaith nad oes gan lawer o bobl y mynediad i'r rhyngwrwd sydd ei angen i gael mynediad at gynnwys ar-lein.
- 10.** Amlygodd rhanddeiliaid eraill y ffaith bod dysgu digidol hefyd yn digwydd ond nad yw'n gweddu i anghenion pob cyfranogwr. O ran dysgu cerddoriaeth, codwyd pryderon bod loteri cod post mewn perthynas â'r dull hwn. Caniatawyd i athrawon mewn rhai meysydd addysgu ond mewn meysydd eraill nid ydynt wedi gwneud hynny.
- 11.** Amlygwyd yr angen am ymyrraeth gan y llywodraeth i sicrhau mynediad cyfartal i ddigwyddiadau celfyddydol ar-lein/digidol. Teimlwyd bod angen cryf i

ddarparu cefnogaeth a chymorth ariannol i'r rheini yn y sector nad oes ganddynt y sgiliau na'r offer angenrheidiol i weithio'n ddigidol.

Ein barn ni

Rydym yn parhau i bryderu'n fawr am y bygythiad y mae pandemig COVID-19 yn ei beri i'r sector celfyddydau yng Nghymru. Er gwaethaf seibiant byr dros yr haf, mae ail don o'r pandemig yn digwydd ledled Ewrop. Mae'n amlwg o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid bod y sector yn disgwyl cyfnod anodd ac ansicr arall dros y misoedd nesaf pan fydd llawer yn gorfod canolbwytio ar orosi.

Casgliad 1. Rydym yn cyflwyno'r crynodeb hwn o'n hymgysylltiad â'r sector i Lywodraeth Cymru gan ddisgwyl y bydd yn defnyddio ei ganfyddiadau i lywio ei gwaith yn y maes hwn yn y misoedd i ddod.

Nodwn y newid i ryngweithio ac ymgysylltu'n ddigidol sy'n ofynnol yn sgil y pandemig a'r pryderon a godwyd y gallai'r newid hwn beri anfantis i'r rheini nad oes ganddynt fynediad i lwyfannau digidol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei strategaeth ddigidol yng ngoleuni'r ddibyniaeth gynyddol ar lwyfannau ar-lein ers dechrau'r pandemig. O ran y celfyddydau, dylid ei ddiweddarau i adlewyrchu:

- y cynnydd mewn defnydd digidol a'r ddarpariaeth ddigidol o'r celfyddydau;
- yr angen am hyfforddiant i'r rheini sy'n gweithio yn y celfyddydau i ddarparu ac elwa ar y ddarpariaeth ddigidol; a
- yr angen i sicrhau mynediad cyfartal i'r celfyddydau ar-lein, gan gynnwys cynyddu dibynadwyedd band eang gan uwchsgilio'r rhai sydd mewn perygl yn sgil y 'rhaniad digidol'.

Clywsom hefyd fod anghysondebau posibl yn ymwneud ag addysgu cerddoriaeth ledled Cymru.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, y trefniadau a'r canllawiau ar gyfer dysgu cerddoriaeth ledled Cymru yn ystod y pandemig a'i hasesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Digwyddiadau celfyddydol a cherddorol byw

12. Codwyd ystod o faterion yn ymwneud â chynnal digwyddiadau celfyddydol byw yn ystod y gweithdai rhithwir gan gynnwys effaith cyfyngiadau iechyd cyhoeddus, hyder defnyddwyr/y cyhoedd, a risg ariannol.

Hyder y cyhoedd

13. Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid yr angen i gynnal digwyddiadau byw eto ac i ennyn hyder y cyhoedd y gellir mynychu digwyddiadau'n ddiogel.

14. Roedd galwad gref i ganiatáu i'r rheini yn y sector ddychwelyd i'r gwaith fel y gallent ddechrau'r dasg o ddarganfod ffyrdd o ailddechrau perfformiadau yn ddiogel unwaith yn rhagor. Teimlwyd bod angen i'r Llywodraeth gyflwyno cyfarwyddiadau clir ynghylch sut y gallai lleoliadau ailagor ac y dylai'r Llywodraeth gynorthwyo i ailfeithrin hyder y cyhoedd o ran mynychu perfformiadau diwylliannol unwaith yn rhagor.

15. Cyfeiriwyd at dreialu digwyddiadau celfyddydol a gynhaliwyd yn yr awyr agored dros yr haf ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Barnwyd bod y digwyddiadau prawf yn llwyddiant, felly mynegodd rhai rhanddeiliaid eu rhwystredigaeth ynghylch y methiant i ailddechrau cynnal digwyddiadau byw.

16. Nododd rhai cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol cael arwydd clir gan y Llywodraeth ynghylch pryd y credir y gallai lleoliadau agor eto. Er y nodwyd y gallai dyddiad targed o'r fath newid gan ddibynnu ar sut y mae'r pandemig yn datblygu, roedd y rhanddeiliaid yn parhau i deimlo y byddai'n ddefnyddiol cael dyddiad mewn golwg i weithio tuag ato.

17. Mae hyrwyddwyr digwyddiadau wedi canfod eu hunain wedi'u caethiwo mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt barhau i weithio i aildrefnu digwyddiadau - ac felly ni allant hawlio cefnogaeth y llywodraeth - ond oherwydd bod y diwydiant wedi ei gau'n llwyr, nid oes ganddynt unrhyw incwm newydd.

Goblygiadau ariannol i ddigwyddiadau byw

18. Roedd y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau byw yn bryder allweddol yn ystod y gweithdai. Yn ogystal, roedd anawsterau o ran cael yswiriant digonol ar gyfer digwyddiadau byw y gallai fod yn rhaid eu gohirio oherwydd COVID-19 yn bryder.

19. Galwodd rhai cyfranogwyr am gynllun yswiriant a gefnogir gan y llywodraeth i helpu i oroesi'r pryderon hyn.

20. Mynegwyd ofnau hefyd fod Cymru yn colli cynulleidfaoedd ac incwm i ddigwyddiadau byw sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr. Mae'r nifer fechan iawn o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynnal yng Nghymru wedi cynnwys yr un perfformwyr: yn bennaf, perfformwyr mwy a mwy adnabyddus, sydd wedi gadael artistiaid llai allan.

Cyngor ac arweiniad gan y Llywodraeth

21. Pwysleisiwyd yr angen am negeseuon a chanllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru i leoliadau, y cyhoedd ac awdurdodau lleol. Nododd nifer o gyfranogwyr fod rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn a ganiateir ac na chaniateir. Mae hyn yn peri diffyg hyder ymysg pobl i gynnal digwyddiadau ac ymysg pobl i fynychu digwyddiadau, gan eu bod yn poeni am ddiogelwch.

22. Teimlwyd bod angen cydnabod nad yw dull "un ateb sy'n addas i bawb" mewn lleoliadau diwylliannol yn ddefnyddiol. Mae anghenion a gofynion cwmni theatr bach sy'n teithio neuaddau pentref, er enghraifft, yn wahanol iawn i rai tŷ opera. Mae angen dull amlweddog ar gyfer agor lleoliadau unwaith eto a dylai'r canllawiau a gyflwynir gan y Llywodraeth adlewyrchu hyn.

23. Roedd ymdeimlad hefyd bod cyngor a chefnogaeth yn cael eu targedu at sefydliadau proffesiynol ar hyn o bryd er anfantais i sefydliadau cymunedol ac amatur. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod sefydliadau cymunedol yn teimlo eu bod yn cael eu "hanwybyddu".

24. Wrth edrych ymlaen, dylai'r cyngor a'r gefnogaeth ystyried bod sefydliadau proffesiynol a chymunedol yn rhan o'r un "ecoleg".

Ein barn ni

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn i randdeiliaid cyn y cyhoeddiad y bydd pythefnos o gyfnod atal byr yng Nghymru a'r dirywiad yn y sefyllfa iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch pwysigrwydd hyder y cyhoedd ac yswiriant digonol i ailagor lleoliadau ac ailgychwyn digwyddiadau byw. Er ein bod yn cydnabod y gall natur gyflym y pandemig effeithio ar ragdybiaethau cynllunio, rydym yn cytuno na ddylai hyn atal Llywodraeth Cymru rhag cynllunio senarios yn ofalus gyda'r bwriad o ailgychwyn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn ddiogel yn y dyfodol agos.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei meddylfryd presennol ynghylch ailgychwyn digwyddiadau celfyddydol a cherddorol byw. Dylai hyn gynnwys:

- asesiad cymharol o'r sefyllfa yng Nghymru mewn perthynas â Lloegr;
- amlinelliad o'r asesiad y mae wedi'i wneud o'r posibilrwydd o lunio llinell amser ar gyfer ailagor lleoliadau a galluogi mwy o ddigwyddiadau byw i gael eu cynnal yn yr awyr agored, gan gynnwys dyddiad penodol i weithio tuag ato.

O ran goblygiadau ariannol digwyddiadau byw, rydym yn nodi'r galwadau niferus am gynllun yswiriant a gefnogir gan y llywodraeth ac rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru eisoes i gychwyn trafodaethau gyda'r Trysorlys ar y mater hwn.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf o ran ei sgysiau â'r Trysorlys, a'r diwydiant yswiriant, ynghylch llunio cynllun yswiriant a gefnogir gan y llywodraeth.

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid bod sefydliadau a lleoliadau cymunedol llai yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru hyd yma.

Casgliad 2. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion sefydliadau cymunedol llai yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn unrhyw ganllawiau yn y dyfodol.

Cefnogaeth i'r gweithlu

25. Bu darparu arian ffyrlo drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws yn ddefnyddiol iawn, ond mae'r gefnogaeth hon yn cael ei thynnu'n ôl er nad yw diwedd y pandemig yn y golwg. Roedd ofnau sylweddol y bydd hyn yn arwain at golli mwy o swyddi ar adeg y sesiwn, fodd bynnag, ar 31 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Cynllun Cadw Swyddi yn cael ei ymestyn tan Wanwyn 2021.

26. Ystyriwyd bod cefnogaeth barhaus i'r gweithlu yn allweddol, ochr yn ochr â galwadau am ymestyn y rhyddhad treth gan gynnwys TAW.

27. Siaradodd lawer o'r cyfranogwyr, gan gynnwys y rhai yn ein sesiwn gyda gweithwyr llawrydd, am y niwed emosiynol y mae'r pandemig yn ei gael ar bobl

yn y sector. Awgrymwyd y gallai'r pandemig gael effaith negyddol hirdymor ar iechyd meddwl a llesiant pobl.

Cefnogaeth i weithwyr llawrydd

- 28.** Roedd pryderon eang ynghylch y gefnogaeth a gynigiwyd i weithwyr llawrydd – a ddisgrifiwyd fel “anadl einioes y sector”.
- 29.** Teimlai nifer o bobl na fu'r cyllid a roddwyd i weithwyr llawrydd yn ddigon sylweddol ac na chafodd ei ddsbarthu mor gyflym ag y dylai fod wedi cael ei ddsbarthu.
- 30.** Ar ben hynny, roedd teimlad bod y ffordd y cafodd grantiau eu dosbarthu yn aneffeithiol. Roedd yr arddull dosbarthu “y cyntaf i'r felin” yn annheg ac roedd problemau wrth gyrchu'r wefan pan gyflwynwyd y grantiau. Disgrifiwyd y broses fel un o “sgrialu” ac mewn un achos cafodd ei chymharu â'r “loteri” o geisio sicrhau tocyn ar gyfer gŵyl Glastonbury.
- 31.** Roedd ymdeimlad cryf bod angen sefydlu system decach ar gyfer dosbarthu grantiau ac y dylid ailddyrranu cyllid sydd heb ei ddyrranu mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol i ardaloedd lleol eraill lle mae'r galw wedi rhagori ar y cyllid sydd ar gael.
- 32.** Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am well dealltwriaeth ynghylch faint o weithwyr llawrydd sydd yn y sector a ble maent wedi'u lleoli. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i sicrhau bod grantiau'n cael eu cynllunio a'u dosbarthu mewn modd effeithiol wrth symud ymlaen.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws tan Wanwyn 2021.

Mae gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sector wedi cael eu taro'n galed gan y pandemig. O ran cefnogaeth i weithwyr llawrydd, rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd wrthym fod y dull dosbarthu cychwynnol yn annheg ac yn creu pryder i unigolion sy'n edrych i gael mynediad at gyllid.

Aeth cam cyntaf y cyllid hwn yn fyw ar 5 Hydref 2020. Cafodd ei ddsbarthu ar sail y cyntaf i'r felin ac, mewn rhai ardaloedd (e.e. Caerdydd) roedd y tanysgrifiadau'n llawn o fewn awr.

O gofio'r anawsterau gyda'r gyfran gyntaf o gyllid, a'r adborth gan randdeiliaid, [ysgrifenasom at y Dirprwy Weinidog ar 20 Hydref](#) yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi o'r gyfran gyntaf o gyllid a chynyddu'r swm sydd ar gael i weithwyr llawrydd yn y sector. Ailadroddwyd y galwadau hyn yn ystod [dadl y Pwyllgor ar Effaith COVID-19 ar y Diwydiannau Creadigol](#) ar 11 Tachwedd.

Ymatebodd y Dirprwy Weinidog ar 11 Rhagfyr yn nodi rhestr o gamau a gymerwyd i wella'r pecyn o gymorth i weithwyr llawrydd yn y sector, a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol.

Clywsom hefyd bod y diffyg data ynghylch nifer y gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yng Nghymru wedi atal Llywodraeth Cymru rhag gallu ymateb i'r pandemig.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa asesiad y mae wedi'i wneud o nifer y gweithwyr llawrydd yng Nghymru ac a yw'r lefel bresennol o gymorth a ddarperir yn ddigonol. Dylai'r ymateb gynnwys manylion y data meintiol a gasglwyd.

Yr effaith ar unigolion a chymunedau

33. Roedd effaith y pandemig COVID-19 ar gymunedau penodol yn thema allweddol.

Yr effaith ar y gymuned BAME

34. Un o'r cymunedau yr effeithir arni mewn modd anghymesur yw'r gymuned BAME. Roedd ymdeimlad o'r gweithdai fod Cymru eisoes ar ei hôl hi o ran ymgysylltu â'r gymuned BAME, a bod hyn wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

35. Roedd y modd y mae sefydliadau celfyddydol yn symud ymlaen gyda'r angen i wella ymgysylltiad â chynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol yn cael ei ystyried yn her allweddol ar ôl y pandemig.

Yr effaith ar y Gymraeg

36. Mae goblygiadau'r pandemig i'r Gymraeg yn cael eu teimlo'n ddwys. Yn benodol, nodwyd bod rhoi'r gorau i ddigwyddiadau celfyddydol Cymraeg wedi cael effaith niweidiol ar addysg Gymraeg ac ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

37. Nodwyd ymhellach fod digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol o ran cadw siaradwyr Cymraeg mewn cysylltiad â'i gilydd ac roedd colli digwyddiadau Cymraeg fel Eisteddfodau yn ergyd anodd. Teimlai sefydliadau

diwylliannol Cymraeg fel yr Eisteddfod y byddai sawl blwyddyn yn mynd heibio cyn y gallant “fownsio yn ôl” i fod yn y sefyllfa roeddent ynnddi cyn COVID.

38. Tynnwyd sylw hefyd at y goblygiadau i amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, a'i tharged o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Sefydliadau yn y gymuned

39. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon bod sefydliadau cymunedol fel corau a grwpiau celfyddydol cymunedol wedi cael eu hanwybyddu a bod y llywodraeth wedi canolbwyntio'n ormodol ar y sector proffesiynol.

40. Yn unol â'r angen am gyfathrebu ac arweiniad clir ar gyfer sefydliadau cymunedol, roedd ymdeimlad bod yr egwyddor o ddirprwyo cyllid i sefydliadau cymunedol ar lefel leol yn bwysig.

Ein barn ni

Rydym yn nodi effaith negyddol y pandemig ar gymunedau penodol yng Nghymru ac yn glir bod yn rhaid i'r llywodraeth wneud pob ymdrech i liniaru'r effaith hon.

O ran y gymuned BAME, bydd sut mae sector y celfyddydau yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol yn her allweddol yn y dyfodol a rhaid bwrw ymlaen â'r ystyriaethau hyn fel rhan o unrhyw waith cynllunio ar ôl y pandemig.

Mae'r goblygiadau i'r Gymraeg hefyd yn sylweddol gyda'r pandemig yn arwain at golli llawer o gyfleoedd i unigolion fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant Cymraeg.

At hynny, mynegodd sefydliadau cymunedol eu synnwyr bod ffocws gweithgaredd y llywodraeth hyd yma wedi canolbwyntio'n ormodol ar y sector proffesiynol. Mae'r celfyddydau'n perthyn i bawb, o'r lefel llawr gwlad hyd at y lefel elitaidd. Disgwylw'n fel Pwyllgor i bob ymdrech gael ei wneud i sicrhau bod sefydliadau cymunedol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, a bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu, yng nghynlluniau'r llywodraeth i adfer ar ôl y pandemig.

Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

41. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau wedi delio ag effaith y pandemig hyd yn hyn, ond roedd

pryderon gan gynnwys ynghylch y ffaith na fyddai'r cyllid a ddyrannwyd hyd yma yn ddigonol.

42. Sylw cyffredinol a wnaed o ran effaith y pandemig ar y sefydliadau celfyddydol a diwylliannol oedd y ffaith mai'r sefydliadau a'r lleoliadau hynny sy'n dibynnu leiaf ar arian cyhoeddus sydd wedi'u taro galetaf.

43. Mynegodd nifer o gyfranogwyr ddiacter a siom ynghylch negeseuon diweddar ynghylch yr angen i ailhyfforddi a gyhoeddwyd ar lefel y DU ac a gylchredwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i fynd i'r afael â'r heriau sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd gyda chydymdeimlad.

Cefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth

44. Roedd pryderon ynghylch pa mor gyflym y darparwyd cymorth ariannol i'r sector gyda rhai cyfranogwyr yn dadlau bod Cymru y tu ôl i Loegr o ran ei chyhoeddiadau.

45. At hynny, amlygodd nifer yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid o fis Ebrill 2021 ymlaen. Byddai'r sector yn croesawu unrhyw arwyddion cynnar y gall Llywodraeth Cymru eu rhoi o ran cefnogaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau anodd y mae'r Llywodraeth yn eu hwynebu wrth ymateb i'r pandemig digynsail hwn ac yn croesawu'r gefnogaeth a ddarparwyd mewn sawl maes.

Mae cefnogaeth ariannol i'r sector yn allweddol – ac mae'n arbennig o boenus i'r sector bod y sefydliadau hynny sy'n dibynnu leiaf ar arian cyhoeddus bellach yn cael eu taro galetaf gan fod pob gweithgaredd wedi dod i ben bron yn llwyr yn y sector.

Mae cryn bryder ac ansicrwydd o fewn y sector ynghylch beth fydd maint a chwmpas y gefnogaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o 2021-22 a dylai Llywodraeth Cymru roi unrhyw sicrwydd y gellir ei roi cyn gynted â phosibl.

Casgliad 3. Byddwn yn cynnal brîff gwylio yn y maes hwn fel rhan o'n gwaith craffu cyffredinol ar Lywodraeth Cymru ar y meysydd sydd o fewn ein cylch gwaith, ac fel rhan o'n gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, y disgwylir iddi gael ei gosod gerbron y Senedd ar 21 Rhagfyr 2020.

Adferiad a'r dyfodol

46. Dylid nodi bod ansicrwydd parhaus ac ymddangosiad ail don o'r pandemig ledled Ewrop yn gefndir i'r trafodaethau wrth edrych ymlaen at y dyfodol.

Cydweithredu

47. Ar ben hynny, dywedodd nifer fod y dimensiwn ychwanegol o Brexit a'r ansicrwydd ynghylch y canlyniad terfynol, pa un a oes cytundeb ai peidio, yn ychwanegu rhagor o heriau ar y sector.

48. Croesawodd nifer o bobl y cydweithredu a feithrinwyd yn ystod y pandemig a mynegwyd gobaith y byddai hyn yn parhau i'r dyfodol.

49. At hynny, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r cyfle i siarad â'r Senedd ac yn teimlo y byddai mwy o ymgysylltiad rhwng y llywodraeth a'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn fuddiol.

50. Roedd neges allweddol o'r gweithdai ynghylch y ffaith bod angen i'r llywodraeth ac eraill nid yn unig 'ymgyngori' â rhanddeiliaid ar draws y sector, ond 'cydweithredu' â nhw hefyd.

51. Dadleuodd rhai cyfranogwyr fod angen man mwy hydraidd ar gyfer trafodaethau gyda Chyngor y Celfyddydau. Roedd teimlad bod ffocws ar y sefydliadau mwy tra bod rhai llai yn ei chael hi'n anodd bod yn rhan o'r trafodaethau.

52. Roedd meithrin cysylltiadau gwell rhwng y sector proffesiynol a gwirfoddol hefyd yn cael ei ystyried yn nod allweddol ar gyfer y dyfodol. Teimlwyd bod y diwydiant yn symud i'r cyfeiriad cywir cyn y pandemig a bod sefydliadau'n newid i ffordd fwy cymunedol o weithio ond bod y pandemig wedi cyflymu'r broses hon.

53. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithredu byd-eang/rhyngwladol hefyd. Gyda sector y celfyddydau yn wynebu heriau ychwanegol Brexit yn y dyfodol agos, bydd y cysylltiadau rhyngwladol hyn yn bwysicach nag erioed wrth i'r pwyslais droi at adferiad yn sgil y pandemig.

Arloesi

54. Pwysleisiodd nifer o bobl arloesedd a gwytnwch y sector wrth ddod o hyd i atebion creadigol i heriau.

55. Amlygodd rhai cyfranogwyr y ffaith bod Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi cynnal trafodaethau â sefydliadau mawr fel Google i chwilio am ffyrdd o weithio'n

ddigidol. Teimlwyd bod hyn yn rhywbeth y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru ei archwilio ymhellach.

Rôl o ran helpu llesiant corfforol a meddyliol

56. Pwysleisiwyd rôl y celfyddydau o ran hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol gwell yn ystod y trafodaethau. Dylai'r rôl bwysig hon y mae'n rhaid i'r celfyddydau ei chwarae fod yn ganolog i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer adfer y sector yng Nghymru yn y dyfodol.

Ein barn ni

Mae'r sector celfyddydau yng Nghymru yn arloesol a gwydn ac roedd yn galonogol clywed rhai enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio ac ymgysylltu. Fodd bynnag, mae hwn yn amlwg yn gyfnod anodd iawn i bron bob agwedd ar ein heconomi a'n cymdeithas, yn enwedig i'r sector celfyddydau yng Nghymru.

Rhaid i ymgysylltiad adeiladol ac ystyrlon rhwng y sector a'r llywodraeth (gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau) barhau wrth i ni oroesi storm y pandemig yn y misoedd sydd o'n blaenau. Nodir, adroddiad Tasglu Llawrydd Cymru ynghylch strategaethau i [gefnogi gweithwyr llawrydd ym maes y celfyddydau a pherfformio](#)¹ fel tystiolaeth o'r angen i ymgysylltu'n adeiladol pan fo hynny'n bosibl.

Rydym yn nodi'r heriau ychwanegol y bydd Brexit yn eu cyflwyno i'r sector ac yn cytuno y dylai cydweithredu rhyngwladol yn y dyfodol chwarae rhan yn y weledigaeth ar gyfer adferiad ôl-bandemig.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei meddylfryd diweddaraf o ran cynllunio i adfer ar ôl y pandemig. Dylai hyn gynnwys:

- ei hasesiad diweddaraf o sut y bydd Brexit yn effeithio ar y sector a pha gamau y mae'n eu cymryd i reoli'r effeithiau hyn;
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i ymgysylltu â'r sector gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau llai ar lawr gwlad a sefydliadau cymunedol; a

¹ Ailfantoli ac Ailddychmygu – Tasglu Llawrydd Cymru

- a oes ganddi unrhyw syniadau neu enghreifftiau o arferion gorau o fannau eraill o ran arloesi effeithiol gyda sefydliadau partner a sut y bydd y rhain yn llywio'r gwaith o gynllunio'r adferiad.